# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3 MAWRTH 2020

Neuadd Rhydlewis 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Mark Davies (Cadeirydd)<br>Cyng Roger Davies<br>Cyng Teifi Evans<br>Cyng Emyr Jones | Cyng Owenna Davies<br>Cyng Ceri Jones<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Maldwyn Lewis |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Julie Davies | Cyng Llyr Evans |
| **Clerc** | Lynda Williams | |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. **Ymddiheuriadau** | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Julie Davies a Chyng Llyr Evans | | |
| 2. **Cadarnhau cofnodion** | Cofnodion 4/02/20 – Cadarnhawyd gan Owenna Davies; eiliwyd gan Emyr Jones | | |
| 3. **Datgelu Buddiannau** | Mynegwyd budd gan OD yn Eitem 6 ar yr Agenda – Gohebiaeth (Cymorth Ariannol ar gyfer 'Ffrindiau Ffostrasol'). Llofnodwyd y ffurflen briodol. | | |
| 4. **Materion yn Codi o'r cofnodion** | • Nid oedd OD wedi gallu cysylltu â'r unigolyn y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn glanhau'r lloches bws yn Ffostrasol eto.<br>• Mae MD, ML ac EJ wedi ymweld â chyn Gyng Eirian James er mwyn cyflwyno llun a thystysgrif iddi, ac er mwyn cyfleu diolch y Cyngor iddi am ei blynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned.<br>• Mae cyn Gyng G Hazelby wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar ar ôl cwympo. Bydd y clerc yn trefnu bod cerdyn yn cael ei anfon ato | OD<br><br><br><br>Clerc | |
| **5. Adroddiad a Diweddariad gan y Cynghorydd Sir** | • Yn dilyn y stormydd a gafwyd yn ddiweddar, mae'r Cyngor Sir wedi ymateb wrth glirio cwteri a gwaredu canghennau sydd wedi cwympo cyn gynted ag y bo modd. Nid oedd ML yn ymwybodol o unrhyw faterion nad ydynt wedi cael sylw yn ardal Troedyraur.<br>• Mae'r gwaith wedi cychwyn i drwsio'r wal ger pont Rhydlewis (cofnodion mis Chwefror) | | |

- Coronafeirws – cyhoeddwyd cyngor ar wefan y Cyngor a'r Cyngor Cymuned. Arddangosir posteri mewn 'Blychau Gwybodaeth' — Clerc
- Mae busnes yn Llandysul wedi manteisio ar gynllun i ysgogi adfywio mewn trefi bach; maent wedi cael grant gan Gronfa Buddsoddi mewn Eiddo Canol Trefi Canolbarth Cymru (TCPIF). Ariannir TCPIF gan gyllid rhaglen Adfywio wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru ac mae ar gael yn nhrefi Llandysul, Tregaron a Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion.

**6. Gohebiaeth**

- Cafwyd ffurflen aelodaeth gan Un Llais Cymru. Cytunwyd y byddai'r aelodaeth yn cael ei hadnewyddu (£218)
- Arolwg Seilwaith Gwyrdd Ceredigion – gall unigolion ymateb i'r arolwg ar-lein.
- Copi o'r cyflwyniad am yr Arolwg Coed (Pwyllgor Un Llais Ceredigion). Mae pob cynghorydd yn gyfrifol am fod yn ymwybodol o faterion yn eu hardal nhw.
- Adroddiad Atodol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – sylwadau erbyn 9/4/20 i Ysgrifenyddiaeth IRP
- Cyfleoedd Cyllido Twf Gwyrdd – y Clerc i gael pecyn. OD i drafod hyn gyda Chlwb Garddio Rhydlewis — Clerc / OD
- Mwy nag Ailgylchu – cynhelir digwyddiadau ym mis Mawrth yn Arberth, Cas-gwent, Yr Wyddgrug a Machynlleth
- Hyfforddiant i Gynghorwyr – y canlynol i'w mynychu — Y clerc I anfon enwau ymlaen
    - M4 – Deall y Gyfraith – MD ac ML
    - M8 – Cyflwyniad i Ymgysylltu Cymunedol – OD a JD
    - M9 – Cod Ymddygiad – CJ a LIE
- Bil Llywodraeth Leol – er gwybodaeth yn unig
- Un Llais Cymru – digwyddiad ar 20/5/20 yn Ewlo. Ni fydd unrhyw un yn gallu mynychu.
- Gwanwyn Glân Cymru – bydd RD yn cyflenwi bagiau 'casglu sbwriel'. Bydd y clerc yn cysylltu â Rob Taylor i weld a fydd gofyn cael unrhyw gymorth gyda gweithgarwch casglu sbwriel yn Rhydlewis. — RD/Clerc
- Cruse – cafwyd llythyr yn gofyn am gymorth ariannol. Anfonir ateb yn nodi'r amserlenni/ gofynion ynghylch rhoi arian ar ffurf grant. — Clerc
- Cafwyd llythyr yn gofyn am gymorth ariannol gan 'Ffrindiau Ffostrasol'. Gadawodd OD yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Cytunwyd anfon llythyr at yr Eisteddfod Genedlaethol i esbonio nad yw'r cais o fewn rheolau'r Cyngor Cymuned, ond a fyddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn ystyried cyllid ychwanegol. Cadarnhawyd gan TE; eiliwyd gan ML — Clerc

**7. Ariannol**

- Un Llais Cymru (Aelodaeth) - £218
- Ni chafwyd manylion tâl y clerc gan Ashmole & Co

**8. Cynllunio**

- Ni chafwyd unrhyw beth.

**9. Materion Ardal**

- Brongest
    - Pwll Graean
    - Gweddillion ar (islaw Salem) ar ôl torri'r clawdd.
- Ffostrasol

Draft

| | | |
|---|---|---|
| | ◦ Mae Fred Davies Sales wedi symud o Synod Inn i Ffostrasol.<br>◦ Mae parcio yn parhau i fod yn broblem pan gynhelir digwyddiadau yn Neuadd y Pentref<br>• Rhydlewis<br>◦ gweddillion ar Rhiw Penrhiw-pâl ar ôl torri'r clawdd<br>◦ Y cyngor i archwilio coeden sy'n pydru ger Rhyd Y Pentre, Rhydlewis, sydd mewn perygl o gwympo. | |
| **10. Cynghorydd Newydd** | • Cafwyd llythyr gan Sharon Thomas yn mynegi diddordeb mewn bod yn Gynghorydd Cymuned Troedyraur | Bydd y clerc yn ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf |
| **11. Ffurflenni Banc** | • Eitem heb ei chwblhau. Bydd MD, CJ, LIE, a JD yn anfon ffurflenni ar ôl i'r materion presennol gael eu datrys.<br>• Cafwyd iawndal o £250.40 gan Nat West am broblemau a brofwyd<br>• Mae angen ail-drefnu bod EJJ yn llofnodwr<br>• Codwyd mater ychwanegol nawr gan bod y gofynion ar gyfer llofnodwyr wedi newid o fod yn 'ddau' i 'un' i lofnodi. | MD/CJ/LE/JD<br><br>EJJ<br>Clerc |
| **12. Archwiliad** | • Yn dilyn y llythyr a anfonwyd at Un Llais Cymru, mae'r clerc wedi siarad â D Evans yn Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau'r cofnodion yn y llyfr arian o 2017. Cytunodd pawb y caiff y dogfennau ariannol angenrheidiol eu hanfon ymlaen gan y Clerc at D Evans.<br>• Ni roddwyd amcangyfrif o'r gost, ond bydd yn fach iawn. | Clerc |
| **13. Gwefan** | • Cafwyd Dogfen Arweiniad am Wefannau. Ni chaiff dwy eitem a restrwyd eu cyhoeddi ar y wefan ar hyn o bryd.<br>◦ Archwiliad – i'w ychwanegu ar ôl ei gwblhau<br>◦ Hygyrchedd y Wefan (gofyniad erbyn 23/12/20). Mae'r Clerc wedi cysylltu â Lesley yn Solutions Factory, ac mae hi'n ymchwilio i hyn. | |
| **14. Rhestr o asedau'r cyngor** | • Diweddarwyd y rhestr. Fe'i dosbarthir er mwyn i bawb ei harchwilio | Clerc |
| **15. Archwilydd Mewnol** | • Mae ML wedi trafod gyda D Morgan ac er nad yw'n gallu cynorthwyo, bydd yn anfon ymlaen enwau unigolion y byddant yn gallu cynorthwyo efallai. Rydym yn aros am ateb. | |
| **16. Blwch Blodau Ffostrasol** | • Bydd MD yn archwilio pa flychau sydd ar gael. Bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch ble y dylid ei osod | MD |
| **17. Cynnal a chadw diffibrilwyr** | • Caiff Amserlen Archwilio ei pharatoi erbyn y cyfarfod nesaf.<br>• Bydd MD yn archwilio'r dyddiad dod i ben ar y batris | Clerc<br>MD |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| **18. Dyddiadau cyfarfodydd 2020-21** | • Dosbarthwyd rhestr o gyfarfodydd y 12 mis nesaf; archebir y neuaddau. | Clerc |
| **19. Llythyr ymddiswyddo** | • Cafwyd llythyr ymddiswyddo gan y Clerc, y mae'n rhaid iddi roi'r gorau i'w dyletswyddau oherwydd ymrwymiadau teuluol.  Mae hi'n fodlon parhau i gyflawni'r rôl nes y cyflogir rhywun newydd | |
| **20. Eitemau i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf** | Materion Cynghorydd Sir;  Materion Lleol;  Archwiliad;  Ffurflenni Banc;  Blwch Blodau Ffostrasol;  Archwilydd Mewnol;  Cinio Blynyddol | |
| **21. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Ffostrasol, 7 Ebrill 2020 am 7:30pm | |

Llofnodwyd (Cadeirydd) ________________________________________

Llofnodwyd (Is-gadeirydd ________________________________________

Draft